| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 1 MAWRTH 2012 |
| **TEITL** | SAFLE BYSIAU AR Y MAES, CAERNARFON |
| **PWRPAS** | YMATEB I RYBUDD O GYNNIG |
| **ADRODDIAD GAN** | ALED DAVIES - PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Y CYNGHORYDD W GARETH ROBERTS, UWCH ARWEINYDD PORTFFOLIO - AMGYLCHEDD |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynwyd rhybudd o gynnig ar y mater yma i'r Cyngor ar 20 Hydref, 2011. Penderfynodd y Cyngor gyfeirio'r cynnig i'w ystyried gan Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd.

1.2 Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Adran Rheoleiddio ar briodoldeb y ddarpariaeth ar gyfer bysiau teithio yng Nghaernarfon i Bwyllgor yr Amgylchedd ar 1 Rhagfyr, 2011.

1.3 Cyn cyflwyno yr adroddiad i Bwyllgor yr Amgylchedd, bu swyddogion yr Adran Rheoleiddio yn trafod y materion a godwyd gyda aelodau Grŵp Llywio Caernarfon. Y Grŵp hwn sydd wedi bod yn gweithio gyda swyddogion y Cyngor i edrych ar gynlluniau i wella canol tref Caernarfon ac i edrych ar gynigion yn ymwneud a materion trafnidiaeth a gwelliannau amgylcheddol. Barn y Grŵp oedd bod trefniadau presennol wedi eu rhoi yn eu lle yn dilyn trafodaethau lleol eang a'u bod yn addas ar gyfer cefnogi hyfywdra economi'r dref ac yn cyd-fynd gyda'r amcanion cytunedig ar gyfer y defnydd a wneir o'r Maes a'r rheolaeth ohono.

## 2. TRAFODAETHAU PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD

2.1 Nododd y Pwyllgor fod lleoliad yr Orsaf Gwasanaethau Bysiau lleol yn hwyluso hygyrchedd i ganol y dref ac yn agos at gyfleusterau cyhoeddus a'r gwasanaethau y mae pobl eisiau eu defnyddio. Cafodd y lleoliad ei ystyried mewn gwahanol ymgynghoriadau a'r farn oedd bod rhaid ei gadw ger yr ardaloedd masnachol. Bydd gwaith i adnewyddu'r Gorsaf Fysiau yn cael ei gwblhau yn ystod Gwanwyn 2012.

2.2 Nododd y Pwyllgor fod trefniadau presennol ar gyfer bysiau teithio, yn cynnwys man gollwng teithwyr ar y Maes ac i ollwng a chodi ymwelwyr yn y safle bws ger adeilad yr Empire, Ffordd Balaclafa. Mae hwn yn drefniant pwysig ar adegau prysur o'r flwyddyn ac yn lleihau pwysau traffig yng nghanol y dref.

2.3 Lleolwyd y safle gollwng a chodi ar Ffordd Balaclafa er annog ymwelwyr bysiau i gerdded drwy’r dref a threulio amser o fewn y dref gaerog. Mae’n ymddangos bod y mwyafrif o’r bysiau yn defnyddio’r man gollwng ar y Maes gyda llawer yn cerdded trwy’r dref i gael eu codi yn ddiweddarach yn Ffordd Balaclafa. Mae’r Adran Rheoleiddio ac Adran Economi a Chymuned yn gefnogol i barhau'r trefniant hwn i’r dyfodol.

2.4 Mae’n bwysig nodi bod cyfyngiadau ymarferol o safbwynt defnyddio’r Maes fel safle codi ymwelwyr bysus teithio yn cynnwys maint, lleoliad ac addasrwydd fel safle parcio bysus am gyfnodau hir ynghyd ag effaith ar lif traffig a diogelwch defnyddwyr y Maes.

## 3. CASGLIADAU

3.1 Penderfynodd Pwyllgor yr Amgylchedd i dderbyn yr adroddiad a gyflwynwyd a’r wybodaeth ddaeth i law drwy Grŵp Llywio Caernarfon a chytuno bod y trefniadau presennol yn diwallu anghenion bysiau teithio sydd yn ymweld â Chaernarfon ac yn cefnogi yr economi leol. Ni ystyrir bod angen gwneud addasiadau i’r trefniant ar hyn o bryd.